**Mair, ei Fam Ef**

Henffych eto, Fam y Bendigedig,
Er mai'th Fab a'n prynodd ar y pren,
Mwyn i mi'r rhamantau eneiniedig
Nyddwyd i'th ogoniant, Forwyn wen.
Er na ddringaist ti i'r nef heb farw,
Pan ddeffroes yr erledigaeth lef,
Pwy warafun, wedi'th hirnos arw,
Mwy dy alw'n lân Frenhines Nef?

Er na phlygwn lin yn llys y Mawredd
Ond ger bron y Dyrchafedig Dduw,
Erys swyn dy enw yn bersawred
Mil pereiddiach na'r thus – offrwm gwyw.

Maddeu i ninnau 'Nghymru, os dysgasom
Roi it leiparch nag a hoffai'r nef;
Cans ar Fab dy draserch y serchasom,
Rhag dy barchu di yn fwy nag Ef.
Gad in, wedi mudan oes, ddynesu
I dy ŵydd – â'n hwyrol fawl i'th fri;
Henffych well, Fendigaid Fair, mam Iesu –
Ar nef a daear fo i ti.

***J. Gwili Jenkins***